*Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.*

# Polisi Ansawdd a Gwella Grŵp CCAF

## Ymrwymiad

O fewn y polisi, mae'r term 'Grŵp' yn cyfeirio at yr holl ddarparwyr o fewn Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro.

Yn sail i'r polisi hwn mae gweledigaeth y Grŵp – Ysbrydoledig, Cynhwysol a Dylanwadol, a bydd yn cefnogi ein gwaith tuag at yr ysgogiadau allweddol, sef Ansawdd, Effeithlonrwydd a Thwf. Bydd y polisi yn ymgorffori'r egwyddorion canlynol:

- Rhaid i'r rheiny sy'n rhan o Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro fod yn **rhydd rhag gwahaniaethu**.
- Caiff dysgwyr eu cefnogi er mwyn eu **galluogi** nhw i gyflawni eu **potensial** tra maent yn dysgu, mewn amgylchedd sy'n lleihau anfantais, neu'n gwaredu arno, sy'n cymryd camau i fodloni eu hanghenion ac yn annog cyfranogiad.
- Byddwn yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i **ddatblygu'n** llwyddiannus drwy gydol eu bywydau.

## Cwmpas a Diben y Polisi

Mae'r Grŵp wedi ymrwymo i ddarparu addysg a hyfforddiant o'r ansawdd gorau i gymunedau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol o ddysgwyr a chyflogwyr. Bwriad y Grŵp yw sicrhau bod pob dysgwr yn cael y cyfle i gyflawni eu potensial yn llawn, gan eu galluogi i gyflawni'r safonau uchaf posib o fewn eu cynlluniau dysgu. Mae ein hymrwymiad i welliant parhaus a'n prosesau Sicrwydd Ansawdd gwelliant yn allweddol i'n bwriad.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r:

- Holl ddysgwyr o fewn y Grŵp, waeth beth fo'u dull neu leoliad astudio.
- Holl aelodau staff o fewn y Grŵp.
- Holl bartneriaid a sefydliadau breiniol.
- Ymwelwyr â'r Grŵp.

## Datganiadau Polisi

Mae'n bolisi Grŵp y byddwn yn:

- Sicrhau bod yr holl staff o fewn y Grŵp yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb ar y cyd ar gyfer gwella a gwneud yn fawr o safon y ddarpariaeth, drwy ddatblygu diwylliant sy'n hunan-ystyriol, yn onest ac yn dryloyw.
- Gwella safon profiad y dysgwyr drwy sefydlu a chynnal systemau o safon a gynlluniwyd er mwyn galluogi adolygiadau trwyadl a rheolaidd, a gwelliant parhaus yn safon y cynnig rydym yn ei ddarparu (yn cynnwys arferion addysgu, dysgu ac asesu).
- Darparu mecanwaith i ddysgwyr, cyflogwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill fynegi eu barn am ein gwasanaethau, ac iddynt deimlo bod eu hadborth yn cael ei ystyried, ac i fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau o fewn y Grŵp.
- Gosod, monitro a datblygu targedau priodol a realistig ar gyfer pob maes gweithgaredd a'r holl dimau o fewn y Grŵp, ac iddynt gael eu meincnodi lle bynnag y bo'n bosibl.



| | |
|---|---|
| **Adolygiad Rhif:** | 2 |
| **Dyddiad Adolygu:** | Gorffennaf 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | Gorffennaf 2026 |

- Bod yn ymatebol ac yn atebol i'n rhanddeiliaid niferus, gan gynnwys ein dysgwyr, y gymuned leol ac asiantaethau'r llywodraeth.
- Sefydlu a chynnal systemau Sicrwydd Ansawdd a gweithdrefnau eraill er mwyn galluogi'r Grŵp i werthuso ac adnabod ein cryfderau, prif feysydd ar gyfer datblygu, ac ymateb i anghenion gwelliant yn effeithiol.
- Sicrhau bod staff yn gallu ymateb yn effeithiol i heriau targedau hunanwerthuso a gwelliant parhaus drwy fuddsoddi mewn datblygu sgiliau staff drwy gyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus.
- Sicrhau bod prosesau wedi eu sefydlu i rannu arfer da ynghylch pob agwedd o'n gwaith, yn fewnol ac yn allanol (lle mae ar gael), gan ddathlu llwyddiant a gwneud yn fawr o gyfleoedd ar gyfer gwella safon.

Byddwn yn sicrhau bod pob dysgwr, ar bob lefel a math o ddarpariaeth, yn cael ei gyfeirio'n glir at unrhyw sefydliad neu gorff allanol sy'n goruchwylio darpariaeth, safonau, disgwyliadau neu gywiro, megis corff dyfarnu, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd neu Swyddfa'r Dyfarnwyr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch (nid yw'r rhestr hon yn un gyflawn).

## Cyfrifoldebau

**Bydd y Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod:**

- Y Polisi yn cael ei adolygu yn rheolaidd (yn unol â thelerau adolygu'r polisi) ac y rhoddir cyngor priodol ar y cynnwys. Y Prif Fwrdd sy'n cymeradwyo'r polisi.

**Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn gyfrifol am sicrhau bod:**

- Trefniadau mewn perthynas â gwelliannau a chamau i fwyhau Safon yn effeithiol ar draws y Grŵp.
- Datblygu trefniadau llywodraethiant effeithiol ar draws y Grŵp er mwyn sicrhau bod canlyniadau mewn perthynas â'r Polisi hwn a'i weithdrefnau cysylltiedig yn cael eu gweithredu mewn modd priodol i gefnogi gwelliant mewn darpariaeth.

**Mae'r Staff Ansawdd Uwch yn gyfrifol am:**

- Weithredu, monitro a thraweffaith llwyddiannus y polisi hwn.
- Sicrhau bod gan bob darparwr yn ei dro y gweithdrefnau a chylchredau Sicrwydd Ansawdd a gwelliant priodol ar waith er mwyn cefnogi'r polisi hwn.
- Monitro a rhoi gwybod am bob gweithgaredd sy'n berthnasol i weithgareddau Sicrwydd Ansawdd mewn ffordd effeithiol.

**Bydd ein holl Staff ar draws y Grŵp yn**:

- Gweithredu yn unol â'r Polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig gan gynnwys rhai gan gyrff dyfarnu, yr Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd neu sefydliadau addysgu uwch.
- Mynychu digwyddiadau datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol.
- Rhoi gwybod i ddysgwyr ynghylch y polisi a'r gweithdrefnau a'u cefnogi nhw i gael unrhyw gymorth.

**Bydd ein holl Staff ar draws y Grŵp yn:**

- Mynychu sesiynau sefydlu a thiwtorialau i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r polisi a'r materion a godir ynddo.
- Ymddwyn mewn ffordd sy'n cefnogi'r Polisi, gan gynnwys mynegi unrhyw bryderon i aelod o staff dysgu neu gefnogi.
- Darparu adborth drwy lais y dysgwr yn ôl y galw.

**Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**



| | |
|---|---|
| **Adolygiad Rhif:** | 2 |
| **Dyddiad Adolygu:** | Gorffennaf 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | Gorffennaf 2026 |

Yn unol â gweithdrefnau'r Grŵp, ysgrifennwyd y Polisi hwn gan ystyried effaith unigolion yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb.

**Safonau'r Gymraeg**

Mae'r polisi hwn yn rhoi cyfleoedd i unigolion ddefnyddio naill ai'r Gymraeg neu'r Saesneg. Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, yn ogystal â hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg ac o ganlyniad yn ei gwneud hi'n haws i bobl ei defnyddio yn eu bywyd bob dydd.

**Cyfeiriadau**

Mae'r holl bolisïau, gweithdrefnau a dogfennau o fewn pob darparwr i'r Grŵp yn berthnasol i roi'r Polisi Ansawdd ar waith.

Canllawiau'r Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd sy'n berthnasol i safonau academaidd.
Canllawiau safonau academaidd Sefydliadau Addysg Uwch partner

**Cyfathrebu a Storio**

Caiff y polisi hwn ei gyhoeddi ar fewnrwyd y cwmni.
Bydd y polisi hwn yn cael ei gyfathrebu a'i storio gan bob sefydliad drwy eu sianeli cyfathrebu mewnol a rheoli polisi.

**Cymeradwyo, Addasu ac Adolygu**

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob 2 flynedd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Dyddiad cymeradwyo:** | **19eg Mehefin 2024** | **Rheolwr Cyfrifol:** | **Pennaeth Ansawdd** |
| **Cymeradwywyd gan:** | **Y Prif Fwrdd** | **Arweinydd Gweithredol: Ansawdd, Addysgu a Dysgu** | **Pennaeth Cynorthwyol** |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | **19eg Mehefin 2026** | **Hygyrch i Fyfyrwyr:** | **Ydy** |



| | |
|---|---|
| **Adolygiad Rhif:** | 2 |
| **Dyddiad Adolygu:** | Gorffennaf 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | Gorffennaf 2026 |